





Coeden
Ddarllen
Rhydychen

Antur yn yr Aifft



Roderick Hunt
Alex Brychta



Daeth Nadim ac Anneena i chwarae yn nhŷ Cad a Dids. Roedd gan Nadim lyfr am yr Hen Eifftiaid.

“Nid dim ond llyfr i’w ddarllen yw e,” meddai Nadim.
“Mae’n llyfr o fath arbennig.”



“Llyfr modelau yw e,” meddai Nadim.
Agorodd y llyfr i ddangos i bawb.

“Rwy’n deall,” meddai Dids. “Rydych chi’n gwasgu’r siapiau allan. Yna rydych yn eu plygu a’u gludio i greu model.”

Roedd yn y llyfr lawer o siapiau i’w gwasgu allan a’u plygu. Pwyntiodd Nadim at un.

“Fedrwch chi weld beth fydd hwn?” gofynnodd.

“Wrth gwrs y medrwn ni,” meddai Anneena.
“Pyramid fydd e.”



Cafodd Dids afael ar lud. Yna gwasgodd Nadim y siapiau allan a dechreuodd y lleill eu plygu. Yn gyntaf gwnaethon nhw y pyramidiau. Roedd gan Anneena siâp anodd i'w blygu.

“Sffincs yw hwn,” meddai.

Gwasgon nhw goed bychan bach a phobl. Gludiodd Cad y darnau i gyd ar ddalen o bapur. Gwnaeth olygfa o'r Hen Aifft. Roedd y plant yn falch ohono.

“Rwy'n falch iawn o'r sffincs,” meddai Anneena.



O'r diwedd roedd y model wedi ei orffen. Roedd yn edrych mor dda fel y galwon nhw Mam i fyny'r grisiau i gael cipolwg.

"Rydych chi wedi gwneud gwaith da iawn ar hwn," meddai Mam. "Rwy'n hoffi'r pyramidiau a'r sffincs."

"Roedd y sffincs yn anodd i'w wneud," meddai Anneena.



Rhedodd Mwlsyn i mewn i'r ystafell. Welodd e mo'r model ar y llawr a phwysodd arno gyda'i bawennau mawrion. Trawodd goeden i lawr a chwalodd y sffincs.

"O Mwlsyn!" gwaeddodd pawb.




Roedd golwg drist ar Mwlsyn. Roedd e'n gwybod ei fod e wedi tarfu ar y plant.

“Does dim ots,” meddai Dids. “Nid ar Mwlsyn oedd y bai. Mae'r sffincs yn edrych hyd yn oed yn well nag o'r blaen.”




Yn sydyn dechreuodd yr allwedd hud ddisgleirio. Aeth yr allwedd â'r plant yn ôl mewn amser. Aeth â Mwlsyn hefyd.

“Nid fy niwrnod i yw e heddiw!” meddyliodd Mwlsyn. “Yn gyntaf, rwy'n mynd i helynt. Nawr, antur hud yw hi.”



Aeth yr hud â nhw yn ôl i'r Hen Aifft. Roedden nhw'n sefyll yn ymyl pyramid. Roedd y pyramid yn dal i gael ei godi. Yn y pellter gallent weld dau byramid arall.

“Mae hyn yn anhygoel!” meddai Nadim. “Doeddwn i ddim yn meddwl bod y pyramidiau mor fawr.”




Roedd rhai pobl yn tynnu ar raffau hir. Roedden nhw'n symud darn mawr o garreg.

“Mae hynny yn anhygoel hefyd,” meddai Dids. “Doeddwn i ddim yn gwybod bod y pyramidiau wedi eu gwneud â darnau mor fawr o garreg.”



“Edrychwch draw fan yna!” ebychodd Anneena.
Pwyntiodd at sffincs enfawr o garreg. “Dewch inni fynd i
edrych ar y sffincs,” meddai hi.
Dechreuodd pawb redeg tuag ato. Aeth Mwlsyn ddim
gyda nhw. Roedd ef wedi gweld cath!




Hisiodd y gath ar Mwlsyn. Allai Mwlsyn ddim atal ei
hun. Aeth e ar ei hôl! Neidiodd hi ar flocliau carreg.
Neidiodd Mwlsyn i fyny hefyd, ond roedd y gath yn rhy
gyflym iddo.



Gwelodd Cad Mwlsyn yn rhedeg ar ôl y gath.
Galwodd ar y lleill. Aeth pawb yn ôl i ymfyn Mwlsyn,
ond roedd e'n gaeth i'r blociau o garreg. Doedd e ddim
yn gallu dod i lawr.

“O Mwlsyn! Y ci gwirion,” meddai Cad.




Edrychodd y plant i fyny ar Mwlsyn.

“Mae e bellter i fyny!” chwarddodd Nadim.

“Bydd yn rhaid imi ddringo i fyny a'i helpu i ddod i
lawr,” meddai Cad.

Gyda hynny rhedodd dyn draw. Edrychodd ar Mwlsyn
ac ebychodd.




Galwodd y dyn ar rai pobl. Rhedon nhw draw at y plant. Ar y dechrau roedden nhw'n siarad ac yn gweiddi. Yna aeth pawb yn dawel.

“Beth maen nhw'n ei wneud?” gofynnodd Cad. “Pam maen nhw'n edrych arnon ni fel hyn?”

Rhoddodd y bobl eu dwylo at ei gilydd a'u codi yn yr awyr. Yna disgynnon nhw i'w gliniau.


“Maen nhw'n ymgrymu i ni,” meddai Dids. “Mae'n rhaid eu bod yn meddwl ein bod yn bwysig.”

“Dyna ryfedd!” meddai Nadim.




Doedd y bobl ddim yn ymgrymu i'r plant. Roedden nhw'n ymgrymu i Mwlsyn.

“Dydw i ddim yn credu hyn!” sibrydodd Dids. “Rhaid eu bod yn meddwl bod Mwlsyn yn bwysig. Pam tybed?”



Aeth y bobl â Mwlsyn oddi yno. Dilynodd y plant. Fedrai Mwlsyn ddim credu bod hyn i gyd yn digwydd iddo fe.

“Mae antur hud yn ddigon drwg,” meddylodd, “a nawr hyn!”



Aeth y bobl â Mwlsyn i balas y brenin. Daeth y brenin allan i'r grisiau.


“Ffaro yw'r enw ar frenin yn yr Aifft,” meddai Dids. “Mae'r ffaro hwn yn edrych yn ffyrnig iawn.” Ymgrymodd pawb pan welon nhw e.

“Gwell i ni ymgrymu hefyd,” meddai Cad. “Dydyn ni ddim eisiau mynd i helynt.”

Siaradodd dyn â'r ffaro.

“O Ffaro Grymus!” meddai. “Edrychwch ar yr hyn rydym wedi ei ddwyn atoch.”

“Y ci melyn!” ebychodd y ffaro.



Aeth y ffaro â Mwlsyn i mewn i'r palas. Yna clapiodd ei ddwylo.

“Gofalwch am y ci melyn,” meddai. “Rhoddwch iddo beth bynnag yr hoffai.”


“Hm!” meddyliodd Mwlsyn. “Rwy’n dechrau mwynhau yr antur hon.”




“Dydw i ddim yn deall hyn,” meddai Cad. “Pam maen nhw’n gwneud y ffws hyn am Mwlsyn?”
Curodd y ffaro ei ddwylo eto. Rhedodd pobl i mewn i'r palas. Dechreuodd un ohonynt baentio llun o Mwlsyn.



Yn sydyn, tsiodd Cad. Gwelodd y ffaro y plant.
“Dieithriaid yn fy mhalas,” gwaeddodd. “Sut daethon
nhw i mewn?”
Gafaelodd gwarchodwr yn Dids ac Anneena.
Gafaelodd un arall yn Cad a Nadim.




Aeth y gwarchodwyr â'r plant y tu allan. Aethant â
nhw at un o'r pyramidiau. Roedd y bobl yn symud y
blociau mawr o garreg.
“Rydych chi i gyd yn edrych yn gryf,” meddai
gwarchodwr. “Cewch weithio yn y man hwn.”



Roedd yn rhaid i'r plant helpu tynnu un o'r blociau mawr. Roedd yn rhaid iddynt osod rholeri ar y llawr i'w lithro ar hyd y ddaear.

“Mae hyn yn waith caled,” cwynodd Cad. “Mae'r rholeri hyn yn drwm.”



Roedd yn amser cael egwyl. Roedd yn rhaid i'r plant yfed o fag a wnaed o groen.

“Ych!” meddai Dids. “Mae'r dŵr hyn yn gynnes ac mae blas rhyfedd arno hefyd. Byddai'n well gen i gael can rhewllyd.”



Roedd yr Eifftiaid yn cerfio darn enfawr o garreg.
Roedd yn rhaid i'r plant godi'r holl naddion carreg
oedd yn disgyn.


“Mae hyn yn waith caled, hefyd,” meddai Nadim.
“Dyw bod yn gaethwas Eifftaidd ddim yn hwyl.”



Edrychodd Anneena ar y cerflun.

“Tybed ydyn nhw'n gwneud sffincs?” meddai. “Mae
gan sffincs gorff llew ond dyw honno ddim yn edrych fel
cynffon llew.”

“Hm. Mae golwg gyfarwydd ar y gynffon honno,”
meddai Cad.



Roedd y cerfio wedi ei orffen.


“Rown i’n dweud ei fod yn edrych yn gyfarwydd,”
ebychodd Cad. “Nid ffincs yw e wedi’r cyfan – Mwlsyn
yw e.”

Ar y funud honno daeth y ffaro i weld y cerfio.
Roedd rhai o’r Eifftiaid yn cario Mwlsyn.

Yn sydyn dechreuodd yr allwedd hud ddisgleirio.
Neidiodd Mwlsyn i lawr a rhedodd draw at y plant.

“Dewch yn ôl, gi melyn,” galwodd y ffaro.

“Rwy’n falch ei bod yn amser mynd,” meddylodd
Mwlsyn. “Roeddwn i’n dechrau mwynhau gormod.”



“Am antur,” meddai Nadim. “Doeddwn i ddim yn hoffi bod yn gaethwas Eifftaidd.”

Cododd Anneena y model o'r sffincs.

“Mae gan sffincs gorff llew a phen dyn,” meddai. “Ond mae hwn yn edrych rywffaint fel Mwlsyn.”



Antur yn yr Aifft

Mae llyfr modelau Nadim yn arwain at antur yn yr Hen Aifft. Mae Mwlsyn yn cael ei gamgymryd am gi pwysig, ac mae'n rhaid i'r plant helpu gwneud pyramid.



Cam 8 Rhagor o Storiâu A
Trefn ddarllen a argymhellir:

Arian Piced
Yr Ysbryd Drwg
Achubwch Mwlsyn!

Sut Le Oedd Yno?
Llifogydd!
Antur yn yr Aifft

Addasiad Cymraeg gan
Juli Paschalis

